



Strategaeth 2030: Strategaeth Cenhadaeth Ddinesig

A. Alinio â Strategaeth 2030	
Colofnau Strategol: Cynnal a symud ymlaen	
<ul style="list-style-type: none"> Rhagoriaeth ymchwil Profiadau dysgu trawsnewidiol Profiad rhagorol i fyfyrwyr Amgylchedd dwyieithog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu 	<ul style="list-style-type: none"> ✓ ✓ ✓ ✓
Themâu trawsnewidiol: Atgyfnerthu a hyrwyddo	
<ul style="list-style-type: none"> Effaith economaidd, gymdeithasol a dinesig Cyrhaeddiad byd-eang Iechyd a lles Pobl a thalent 	<ul style="list-style-type: none"> * ✓ ✓ ✓
Yn sail i hyn oll mae	
<ul style="list-style-type: none"> Cynaliadwyedd sefydliadol 	<ul style="list-style-type: none"> ✓

* sylfaenol

✓ eilaidd

B. Alinio â Risgiau Corfforaethol	
Risg corfforaethol 7	Ymwneud gwael â chymunedau lleol/rhanbarthol
Risg corfforaethol 15	Annigonolrwydd o ran cyfeiriad strategol sefydliadol

C. Llywodraethu
Cyfnod y strategaeth <ul style="list-style-type: none"> 2022-2026
Trefniadau adolygu'r strategaeth <ul style="list-style-type: none"> Caiff y strategaeth ei hadolygu'n flynyddol gan y Grŵp Strategaeth Cenhadaeth Ddinesig ac adroddir y canlyniadau i'r Pwyllgor Gweithredu.
Adolygwyd ddiwethaf

D. Rhagarweiniad

Ers ei sefydlu ym 1884, mae'r brifysgol hon wedi ymrwmo i weithio gyda'r gymuned leol a rhanbarthol i ddiogelu, datblygu a gwella bywyd cymdeithasol, economaidd a diwylliannol gogledd Cymru. Fel prifysgol gogledd Cymru a'r brifysgol ar gyfer gogledd Cymru dan arweiniad ymchwil, mae ein cynllun strategol sefydliadol *Strategaeth 2030* yn amlinellu ein hymrwymiad i gefnogi cyfoeth o weithgareddau'n ymwneud â'n cenhadaeth ddinesig yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol ac yn cydnabod bod hyn yn agwedd sylfaenol o'n gweithgareddau craidd. Yn *Strategaeth 20230* mae'r weledigaeth ar gyfer canolfannau cenhadaeth ddinesig yn canolbwyntio ar bedwar maes blaenoriaeth:

- Ffyniant cymdeithasol ac economaidd: darparu arweinyddiaeth syniadaeth ar gyfer gogledd Cymru trwy gydweithredu a chydweithio â phartneriaid rhanbarthol i ddarparu asgwrn cefn ymchwil ac arloesi hanfodol i fwydo effaith economaidd a chymdeithasol ehangach, chwarae rhan flaenllaw yn yr adferiad ar ôl y pandemig, a chwarae rhan flaenllaw yn y sector gwyddorau bywyd ac iechyd bywiog ar draws y rhanbarth.
- Cefnogi busnesau a sgiliau. Cefnogi datblygiad gweithlu rhanbarthol trwy ein darpariaeth israddedig ac ôl-radd, datblygiad proffesiynol parhaus a chymwysterau proffesiynol a sicrhau bod ein portffolio addysgu yn cyd-fynd ag anghenion cyflogwyr ar draws gogledd Cymru.
- Cymunedau cydlynol, gwydn. Sicrhau ein bod yn ymgorffori cenhadaeth ddinesig ym mhob rhan o'n strategaethau, yn cyfathrebu'n glir ac yn effeithiol â rhanddeiliaid ac yn datblygu ymchwil sy'n ymdrin â heriau a chyfleoedd yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang.
- Prifysgol hygyrch. Sicrhau bod y brifysgol yn lle hygyrch ym mywyd ein cymunedau lleol a gweithio i ddatblygu a gwella gweithgareddau diwylliannol er budd y rhanbarth.

Mae camau gweithredu sydd wedi'u hanelu at gyflawni'r nodau hyn yn cael eu mynegi ar draws amrywiaeth o is-strategaethau gan gynnwys *Ymchwil ac Arloesi*, *Cynaliadwyedd*, *Cyflogadwyedd*, *Ehangu Mynediad a Chyfranogiad*, *Pobl a Talent*, *Iechyd a Lles*, *Rhyngwladol ac Addysgu a Dysgu*. Byddwn felly yn cyflawni'r amcanion a amlinellwyd yn y strategaeth hon trwy gydgyssylltu amcanion a sicrhau cysondeb rhyngddynt ar draws ein colofnau strategol eraill.

Nod y strategaeth hon a'r cynllun gweithredu cysylltiedig yw rhoi cyfeiriad, gwelededd, a'r statws gofynnol a haeddiannol i'n gwaith Cenhadaeth Ddinesig. Drwy sicrhau bod ein gwaith partneriaeth yn gydlynol ac yn gyfannol, byddwn yn gallu hybu twf a chyflymu newid.

Mae'r strategaeth wedi ei hadeiladu ar seiliau hanesyddol a chyfoes cadarn. Mae staff ar draws yr adrannau academiaidd a'r adrannau gwasanaeth yn ymgymryd â chyfoeth o weithgareddau sy'n cyfrannu at ein cenhadaeth ddinesig. Mae'r gweithgareddau hyn yn aml yn seiliedig ar rwydweithiau hirsefydlog a datblygedig gyda llu o bartneriaid gan gynnwys cyrff cyhoeddus, grwpiau cymunedol, busnesau, ac unigolion allweddol. Mae'r Strategaeth yn ceisio dathlu'r gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd, rhoi rhagor o fomentwm ac effaith iddo, a helpu i nodi cyfleoedd newydd. Er mwyn cyflawni hyn, mae angen i ni:

- Gyfathrebu'n effeithiol gyda chynulleidfaoedd mewnol ac allanol;
- Cefnogi ein staff a rhanddeiliaid i feithrin partneriaethau a chydweithio cynaliadwy;
- Adnabod ein hardal yn dda trwy gael dealltwriaeth ddofn o'r bobl a'r heriau.

Mae ein gwaith Cenhadaeth Ddinesig yn eang ac yn amrywiol ond at ddiben y strategaeth hon, mae'n dod o dan dair thema gyffredinol:

- Gweithio gyda rhanddeiliaid i nodi ac ymdrin â heriau cymdeithasol (e.e. heriau 'mawr' iechyd y cyhoedd, newid yn yr hinsawdd, y Gymraeg, tai, tlodi, adferiad ar ôl Covid, poblogaeth sy'n heneiddio ac eraill);
- Gweithio gyda rhanddeiliaid i sicrhau twf economaidd a chynaliadwyedd;
- Gwella ansawdd bywyd trwy gysylltiadau cymdeithasol a diwylliannol.

Dim ond trwy weithio mewn partneriaeth y gellir cyflawni'r strategaeth hon. Mae'r strategaeth yn darparu cyfeiriad ar gyfer datblygu a chynnal partneriaethau a sicrhau'r effaith fwyaf buddiol y gallwn ei chael drwy gydweithio. Bydd ein hagwedd at genhadaeth ddinesig yn seiliedig ar werthoedd. Byddwn yn pwysleisio ein *huchelgeisiau* ar gyfer ein cymunedau, *atebolrwydd* i rhanddeiliaid allanol, *chwilfrdedd* i gyfnawid

syniadau a dod o hyd i atebion, *cydweithredu* o ran agwedd a syniadaeth, cyd-ddibyniaethau yn cael eu trin gydag *ymwybyddiaeth ofalgar a pharch* at bobl, lle, diwylliant a phrosesau.

Bydd y tîm Cenhadaeth Ddinesig – Dirprwy Is-ganghellor, Dirprwy Is-ganghellor Cynorthwyol a swyddogion – yn daprau arweiniad sefydliadol a chefnogaeth weithredol ar gyfer y strategaeth. Oherwydd natur gynhenid draws-sefydliadol cenhadaeth ddinesig, bydd cydweithredu ac uno'n effeithiol gyda strategaethau a rhalgenni gwaith eraill yn allweddol. Bydd y cynllun gweithredu cysylltiedig yn manylu ar swyddogaethau, cyfrifoldebau a graddfeydd amser er mwyn gosod cyfeiriad a hwyluso hyn.

E. Amcanion

1. Gweithgareddau cenhadaeth ddinesig yn cael eu cyfathrebu'n effeithiol ac yn amserol.

Mae cyfathrebu effeithiol yn allweddol i lwyddiant y strategaeth hon. Bydd y gwaith y mae staff a myfyrwyr yn ei wneud gyda phartneriaid allanol yn cael ei ddathlu a'i rannu'n fewnol. Gan ddefnyddio sianeli cyfathrebu mewnol sefydledig, byddwn yn sicrhau bod cymuned y brifysgol yn deall amrywiaeth, ehangder a dyfnder y gweithgareddau'n ymwneud â'n cenhadaeth ddinesig a'r posibiladau sy'n deillio ohoni. Bydd gwerth cenhadaeth ddinesig i'r brifysgol yn cael eu cydnabod a'u statws yn cael eu dyrchafu. Byddwn yn defnyddio sianeli cyfathrebu allanol yn effeithiol i sicrhau bod rhanddeiliaid allanol yn deall yr hyn a wnawn a sut y gallwn weithio gyda nhw i gyflawni nodau a dyheadau a rennir. Er mwyn cyflawni'r nodau hyn, byddwn yn gwneud y pethau canlynol:

- Sicrhau ein bod yn cyfleu gweledigaeth a strategaeth y brifysgol yn effeithiol mewn ffordd sy'n dangos ein partneriaeth unigryw a hirdymor gyda'n cymunedau.
- Datblygu ein llinellau cyfathrebu mewnol a chyhoeddus gan gynnwys gwe-dudalennau pwrpasol sy'n disgrifio'r gweithgareddau'n ymwneud â chenhadaeth ddinesig (gan sicrhau bod y derminoleg a ddefnyddir yn gwneud synnwyr i'r gynulleidfa darged).
- Casglu astudiaethau achos o bartneriaethau sefydledig a rhai sy'n dod i'r amlwg a sicrhau bod y rhain yn cael eu dathlu a'u lledaenu'n rheolaidd yn fewnol ac yn allanol trwy ein sianeli cyfathrebu.
- Sefydlu Diwrnod Cymunedol blynyddol i agor ein drysau i'r gymuned i arddangos ein gwaith, rhoi cyfle i rhanddeiliaid allanol ymgysylltu â staff a myfyrwyr, ac amlygu'r potensial ar gyfer gweithio mewn partneriaeth.

2. Deall ehangder a dyfnder ein cysylltiadau â rhanddeiliaid allanol, manteisio i'r eithaf ar botensial y cysylltiadau hyn a chefnogi staff sy'n ymwneud â gweithgareddau Cenhadaeth Ddinesig.

Mae cyfoeth o weithgareddau Cenhadaeth Ddinesig yn cael eu gweithredu ar draws pob rhan o'r brifysgol. Mae llawer o'n staff a'n myfyrwyr yn reddfodol yn ceisio ymgysylltu â'n cymunedau trwy eu hymchwil, addysgu a/neu gymryd rhan mewn nifer o wahanol weithgareddau allanol. Er mwyn datblygu a thyfu'r partneriaethau hyn mae angen i ni ddeall eu maint a'u heffaith, ac ymgorffori'r mecanweithiau cefnogi a fydd yn hwyluso cydweithio ac yn gwneud y mwyaf o'u potensial llawn. Er mwyn cyflawni'r nodau hyn, byddwn yn gwneud y pethau canlynol:

- Darparu arweinyddiaeth sefydliadol a chael uned sefydliadol bwrpasol a strwythur ar gyfer Cenhadaeth Ddinesig a Chymunedol.
- Gwneud archwiliad o'r gweithgareddau a gynhelir ar hyn o bryd i ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r gymuned.
- Datblygu cronfa ddata o rhanddeiliaid a gweithgareddau cysylltiedig a rennir ar draws y brifysgol fel y gellir gwneud cysylltiadau.
- Datblygu strategaeth *Ymgysylltu â Rhanddeiliaid* gynhwysfawr ar draws y brifysgol.
- Datblygu ein dealltwriaeth o fanteision ehangach gweithgareddau'n ymwneud â chenhadaeth ddinesig a cheisio ei hymgorffori'n fwy effeithiol mewn cynllunio busnes.
- Datblygu statws a phroffil y Cenhadaeth Ddinesig ar draws y colegau academiaidd ac mewn gwasanaethau proffesiynol a sicrhau bod y Cenhadaeth Ddinesig yn cael ei hyrwyddo trwy swyddogaethau newydd neu bresennol.
- Datblygu rhaglenni a/neu hyfforddiant i feithrin gallu sefydliadol a chymunedol.

- Ymgorffori cydnabyddiaeth sefydliadol ar gyfer gwaith y Genhadaeth Ddinesig trwy wobrau ac anrhydeddau.
- Sicrhau bod gwaith y Genhadaeth Ddinesig yn cael ei gydnabod mewn Modelau Dyrannu Llwyth Gwaith a gwerthuso dyrchafiadau.

3. Gwella trefniadau rhannu gwybodaeth a hwyluso cydweithio rhwng y brifysgol a'i rhanddeiliaid

Fel sefydliad mawr a chymhleth, mae gan y brifysgol lu o bartneriaethau gweithredol a strategol ac mae'n ymgysylltu â nifer fawr o randdeiliaid a sefydliadau cymunedol. Er mwyn gwneud y mwyaf o botensial y partneriaethau hyn, rhaid i ni ddeall sut mae'r cysylltiadau yn gweithio a rhannu ymarfer gorau. Byddwn yn hyrwyddo ymgysylltiad y sefydliad â'n rhanddeiliaid trwy gyfnewid gwybodaeth ddwy ffordd, ac yn cyfathrebu'n weithredol ac yn eang am berthnasedd ac effaith ein gweithgareddau. Er mwyn cyflawni'r nodau hyn, byddwn yn gwneud y pethau canlynol:

- Sicrhau bod ein Bwrdd Cymunedol yn dwyn ynghyd ystod eang o randdeiliaid o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector gwirfoddol.
- Sicrhau bod y Bwrdd Cymunedol yn bywdo i mewn i ddatblygiad y Strategaeth Cenhadaeth Ddinesig drwy nodi cyfleoedd i gydweithio a darparu adborth ar ein gwaith ym maes cenhadaeth ddinesig.
- Ymgorffori ymrwymiad i'r Genhadaeth Ddinesig trwy fod yn aelod ac ymwneud â rhwydweithiau ymgysylltu cymunedol cenedlaethol a rhyngwladol.
- Cynyddu'n sylweddol y llif dwy ffordd o wybodaeth a dealltwriaeth rhwng y brifysgol a'r gymdeithas ehangach.
- Cynnwys partneriaid allanol/cymunedol mewn cyfnodau ac agweddau ar brojectau a chydweithredu.
- Adnabod anghenion, diddordebau a photensial rhanddeiliaid a phartneriaid allanol.
- Parchu a derbyn gwahanol ffyrdd o weithio a diwylliannau sefydliadol.
- Cymryd rhan mewn casglu tystiolaeth gyda chymunedau lleol trwy bleidleisio ac ymgynghori
- Sefydlu cysylltiadau cryf gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yng ngogledd Cymru.
- Gweithio gyda grwpiau a rhwydweithiau cymunedol ar draws y rhanbarth, gan sicrhau bod gennym ddealltwriaeth gyffredin o flaenoriaethau ac amcanion.
- Nodi cyfleoedd i ymgysylltu â'r agenda 'Codi'r gwastad'.
- Sefydlu rhaglen o ddiwyddiadau mewn cydweithrediad â phartneriaid allanol (e.e. Sefydliad Materion Cymreig).
- Sicrhau bod y tîm cenhadaeth ddinesig yn gweithio gyda chydweithwyr i nodi cyfleoedd cydweithio ac ariannu a gweithredu fel pwynt cyswllt ar gyfer ymholiadau allanol sy'n ymwneud â'n nodau strategol.
- Sicrhau bod gennym gyllideb wedi'i neilltuo ar gyfer Cenhadaeth Ddinesig a Chymunedol.
- Sefydlu *Cronfa Cydweithio Cymunedol* i hwyluso gweithgareddau ysgogi cenhadaeth ddinesig ac ariannu costau bach sy'n gysylltiedig ag adeiladu partneriaethau.

4. Gweithio gyda rhanddeiliaid allanol i nodi ac ymdrin â heriau cymdeithasol (e.e. 'heriau mawr' iechyd y cyhoedd, newid yn yr hinsawdd, y Gymraeg, tai a thlodi).

Mae'r angen i ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol ar lefel leol, ranbarthol, genedlaethol a rhyngwladol a chydweithio i ymdrin ag ystod o heriau cymdeithasol yn thema drawsnewidiol sefydliadol. Mae gwaith i ddatblygu twf economaidd a chynaliadwyedd ar ei fwyaf effeithiol pan fydd wedi'i wreiddio mewn dealltwriaeth ddofn o broffil economaidd, cymdeithasol, ieithyddol a diwylliannol y rhanbarth. Trwy ddyfnhau a chryfhau ein gwaith partneriaeth ddinesig gallwn gefnogi ymhellach ein cyfraniad at ddatblygu sgiliau a chyflogadwyedd ac ymestyn cyfleoedd addysgol. Byddwn yn creu partneriaeth â rhanddeiliaid ac asiantaethau perthnasol i hyrwyddo'r sefydliad fel canolbwynt gweithgarwch ymgysylltu er mwyn ymdrin yn weithredol ag agendâu datblygu, adfywio ac ymchwil lleol a rhanbarthol. Er mwyn gwireddu'r uchelgeisiau hyn byddwn yn gwneud y pethau canlynol:

- Sicrhau aliniad amcanion ar draws ystod o is-strategaethau'r brifysgol gan gynnwys *Ymchwil ac Effaith*, *Cyflogadwyedd*, *Cynaliadwyedd*, *yr Iaith Gymraeg* ac *Ehangu Mynediad* a gweithio i gefnogi cydweithwyr i gyflawni'r nodau hyn.
- Cyflymu arloesedd a thwf economaidd cynhwysol ar draws rhanbarth gogledd Cymru.

- Buddsoddi mewn projectau a llwyfannau dinesig newydd drwy fuddsoddiad cyfalaf a ariennir yn allanol neu a ariennir ar y cyd (e.e. Parc y Coleg).
- Cynnwys y cyhoedd yng ngweithgarwch ymchwil y sefydliad.
- Sicrhau bod ein strategaethau yn cyd-fynd â'r dyheadau a nodir yn *Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)* Llywodraeth Cymru a *Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig*.
- Sicrhau bod ein gweithgareddau Cenhadaeth Ddinesig yn cael eu llywio gan yr agenda cynaliadwyedd ac yn cyfrannu at les cymunedol a datblygiad economaidd.
- Gweithio gyda grwpiau a chyrrff lleol, rhanbarthol a chenedlaethol (gan gynnwys llywodraeth leol a chenedlaethol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus) i nodi ac ymdrin â heriau cymdeithasol.
- Sicrhau bod ein parc gwyddoniaeth, *MSParc*, yn darparu'r cyfleusterau, yr arbenigedd a'r mynediad i entrepreneuriaid a busnesau lleol a'r rhwydweithiau sy'n gallu trosi ymchwil yn ddatblygiad economaidd sy'n cael effaith.
- Cefnogi busnesau lleol trwy hyfforddiant a chefnogaeth allanol (e.e. ION).
- Gweithio gyda chyflogwyr lleol a chenedlaethol i sicrhau bod y sgiliau a enillir gan ein graddedigion yn cyd-fynd â'u hanghenion ac yn cefnogi'r ymgyrch am economi gynaliadwy.
- Gweithio gyda rhanddeiliaid allanol i greu cyfleoedd i fyfyrwyr ymgymryd â'r gweithgareddau allgyrsiol a fydd yn gwella eu parodrwydd i weithio.
- Gweithio gyda rhanddeiliaid a phartneriaid mewnol ac allanol i gyflawni potensial y cyfleoedd a gynigir gan statws UNESCO i Gymuned Llechi Cymru o amgylch themâu gan gynnwys hanes, iaith, diwylliant, diwydiant a thirwedd.
- Cydweithio gyda rhanddeiliaid i gefnogi amcanion a chynlluniau fel Dinas Diwylliant.
- Gweithio'n agos gyda chyflogwyr i nodi eu hanghenion o ran y Gymraeg.
- Gweithio gyda rhanddeiliaid allanol i ehangu cyfleoedd addysgol i blant, pobl ifanc ac oedolion.
- Sicrhau bod arferion caffael yn arwain at fuddion cymdeithasol a chymunedol lleol.
- Datblygu ein dealltwriaeth o anghenion a chyfleoedd sgiliau a chyflogaeth yn ein cymunedau.
- Nodi cyfleoedd pellach ar gyfer lleoliadau myfyrwyr.
- Defnyddio partneriaethau i ddeall y ffyrdd mwyaf effeithiol o gyrraedd cymunedau a chyflwyno darpariaeth addysgol / sgiliau iddynt.
- Cefnogi mentrau gwirfoddoli myfyrwyr.
- Trwy'r Fframwaith Cenhadaeth Ddinesig (Cymru), gweithio gyda phrifysgolion eraill Cymru ar feysydd o ddiddordeb cyffredin, nodi cyfleoedd i gydweithio ar brojectau a phartneriaethau ad hoc.

5. Cyflwyno rhaglen gyfoethog ac amrywiol o fentrau cysylltiadau cyhoeddus a chymdeithasol a sicrhau y gellir defnyddio ein cyfleusterau a'n lleoedd er budd ein cymunedau.

Ers sefydlu'r brifysgol ym 1884, mae cyfnewid gwybodaeth wedi bod yn weledigaeth a chenhadaeth sefydliadol ysbrydoledig a pharhaus. Ar draws ein disgyblaethau academiaidd a thrwy sawl math o ymgysylltu, mae gan Fangor hanes hir a sefydledig o gyflwyno rhaglen o ddigwyddiadau a gweithgareddau sy'n ymwneud â'r cyhoedd. Ein gweledigaeth yw adeiladu ar y sylfeini hynny. Byddwn yn cryfhau ein cysylltiadau â chymunedau ledled y rhanbarth trwy sicrhau bod ein gweithgareddau'n berthnasol, yn ddealladwy ac yn ychwanegu gwerth mewn modd pwrpasol. Byddwn yn cydweithio i godi dyheadau a darparu cyfleoedd i wella ansawdd bywyd ac ehangu gorwelion. Byddwn yn parhau i agor ein campysau i gymunedau lleol a sicrhau, lle bynnag y bo'n bosibl, y bydd ein gweithgareddau cymdeithasol, celfyddydol, diwylliannol, academiaidd a chwaraeon yn hyrwyddo ymgysylltiad a phartneriaethau cymunedol. Er mwyn cyflawni'r nodau hyn, byddwn yn gwneud y pethau canlynol:

- Sicrhau bod Pontio yn ganolfan uchelgeisiol a deniadol sy'n ymgysylltu'n effeithiol â'n cymunedau trwy ystod amrywiol o raglenni a digwyddiadau.
- Sicrhau bod ein harbenigedd academiaidd yn y Celfyddydau yn cael ei rannu â'r gymuned yn ehangach trwy fentrau fel *Gŵyl Gerddoriaeth Bangor* a digwyddiadau fel yr *Eisteddfod Genedlaethol*.
- Trwy ein cyfleusterau chwaraeon yng *Nghanolfan Brailsford* a 3G yn Nhreborth, sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu ystod o weithgareddau chwaraeon a chefnogaeth i'r gymuned.
- Gweithio'n agos gyda sefydliadau gan gynnwys Rygbi Gogledd Cymru (RGC) i ddatblygu mentrau strategol sy'n ymwneud â'r gymuned.
- Sicrhau bod arbenigedd y brifysgol mewn lechyd a Lles yn cael ei ddefnyddio er budd y gymuned (e.e. sesiynau cymunedol ymwybyddiaeth ofalgar, teithiau cerdded lles yn Nhreborth)
- Gwneud y mwyaf o botensial Gerddi Treborth i'w defnyddio gan ystod eang o ddemograffeg o fewn cymdeithas i amlygu a chefnogi mentrau lles ac amgylcheddol.

- Datblygu *Parc y Coleg* a hyrwyddo ei ddefnydd i ystod mor eang â phosibl o boblogaeth Bangor a'r cyffiniau.
- Cynnal amrywiaeth ddeniadol o gyfresi a digwyddiadau sy'n galluogi cymunedau i ddysgu am feysydd o arbenigedd academiaidd ac ymgysylltu â nhw.
- Datblygu ffyrdd newydd a defnyddio ystod o gyfryngau i rannu ein gwaith gyda chymunedau y tu hwnt i'r brifysgol (e.e. Cyrsiau Ar-lein Enfawr Agored rhad ac am ddim, podlediadau, deunyddiau gwe ac ati).

F. Dangosyddion Perfformiad Allweddol

Bydd cynnydd yn erbyn pob un o'r amcanion yn cael ei fynegi trwy ddangosyddion perfformiad allweddol; mae'r rhain wedi eu seilio ar fframwaith o ddangosyddion perfformiad allweddol a thargedau manylach sy'n gyson â chylch cynllunio busnes blynyddol y brifysgol, ac yn cael eu gweithredu drwy hynny.

1. Nifer yr ymholiadau blynyddol am y genhadaeth ddinesig (deilliant 3)
2. Metrigau HEBCIS yn cynnwys nifer y digwyddiadau a gyflwynir fel rhai'n ymwneud â'r cyhoedd a'r genhadaeth ddinesig a'r niferoedd yn bresennol; Nifer yr unigolion a'r grwpiau sy'n defnyddio cyfleusterau'r brifysgol; Nifer y bobl yn bresennol yn y Diwrnod Cymunedol blynyddol; Nifer yr ymweliadau ag ysgolion a sgysiau (amcan 1, 2, 3, 4, 5) Nifer y lleoliadau myfyrwyr gyda chyflogwyr a sefydliadau lleol (amcan 3 a 4)
3. Nifer y projectau ymchwil sy'n ymwneud â themâu newid cymdeithasol (amcan 4)
4. Nifer y staff sy'n gweithredu fel ymgynghorwyr a chynghorwyr ar themâu newid cymdeithasol (amcan 4)
5. Nifer yr adnoddau mynediad agored (Cyrsiau Ar-lein Enfawr Agored am ddim, podlediadau, deunyddiau gwe, blogiau, archifau ac ati) (amcan 4, 5)
6. Nifer y lleoliadau myfyrwyr gyda chyflogwyr a sefydliadau lleol: Nifer y myfyrwyr a all gyfrannu at weithlu dwyieithog (amcan 3 a 4)
7. Cyfran gwariant gyda chyflenwyr Cymreig yn seiliedig ar gyflenwyr y mae eu lleoliad yn wybyddus; Nifer y prosiectau yn cynnwys cymalau gwerth cymdeithasol a gwerth budd cymdeithasol drwy gaffael (amcan 4)
8. Nifer a/neu % y myfyrwyr sy'n gwirfoddoli (amcan 4)
9. Nifer y staff sy'n gwasanaethu ar bwyllgorau sefydliadau lleol, cymunedol ac elusenol (amcan 2, 4, 5)
10. Nifer y staff sy'n gwirfoddoli mewn grwpiau cymunedol, sefydliadau a chyrrff anllwyodraethol (amcan 2, 4, 5)